**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**6ed Mawrth 2008**

**DANGOSYDDION PERFFORMIAD GWERTH GORAU I AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU**

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** I gynghori aelodau ar y cynnydd mewn gosod Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

**Cefndir**

**2.** Roedd Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru, gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2005, yn dynodi byddai dangosyddion perfformiad yn cael eu hadolygu fel rhan o'r gwaith i gyflwyno Rhaglen Gwella Cymru i Awdurdodau Tân ac Achub.

**3.** Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy gydweithio gyda rhanddeiliaid yn cynnwys y tri gwasanaeth tân ac achub, wedi dyfeisio fframwaith mesur perfformiad ac wedi ymgynghori ar hyn, a'r dangosyddion perfformiad statudol ac anstatudol arfaethedig ar ddiwedd 2007. Ystyriwyd ymateb drafft gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'i gymeradwyo yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 15fed Tachwedd 2007.

**Cyflwyniad**

**4.** Derbyniwyd llythyr, dyddiedig 8fed Ionawr 2008, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys Gorchymyn drafft yn nodi'r Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau statudol. Gwahoddwyd sylwadau ar y dangosyddion statudol drafft erbyn Chwefror 4ydd 2008.

**5.** Cyn i ymateb i'r llythyr yma gael ei anfon, derbyniwyd llythyr arall gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, dyddiedig Ionawr 29ain 2008, ar yr un pwnc, ond yn atodi atodlen ddiwygiedig i'r Gorchymyn. Roedd yr ail lythyr yma'n egluro fod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau o ganlyniad i sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'w llythyr, dyddiedig Ionawr 8fed.

**6.** Gwahoddwyd sylwadau ar y dangosyddion statudol drafft diwygiedig erbyn Chwefror 12fed 2008.

**Gwybodaeth**

**7.** Mae'r Gorchymyn drafft yn nodi chwe Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau statudol y bydd perfformiad yr Awdurdodau Tân ac Achub Cymreig yn cael eu mesur yn eu herbyn. Mae'r chwech yma'n cael eu hisrannu ymhellach gan roi cyfanswm o ddwy ar bymtheg o elfennau ar wahân.

**8.** Bydd un ar ddeg o ddangosyddion anstatudol craidd pellach yn cael eu hisrannu'n dri deg tri o elfennau ar wahân yn cael eu cyflwyno o Ebrill 2008, ond nid ydynt yn ffurfio rhan o'r Gorchymyn yma.

**9.** Mae copï o'r Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau gyflwynwyd gyda llythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru dyddiedig Ionawr 29ain ynghlwm fel Atodiad 1, a chopi o'r ymateb anfonwyd ynghlwm fel Atodiad 2.

**Argymhelliad**

**10.** Fod aelodau yn nodi y cynnydd a wnaed wrth osod Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub Cymru fydd yn dod i rym o'r 1af Ebrill 2008.

**Atodiad 1**

**ATODLEN 1**

Lleihau risg a diogelwch cymunedol

| *Cyfeirnod* | *Dangosydd* |
|---|---|
| FRS/RRC/S/001 | i) Cyfanswm y nifer o danau a fynychwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth;<br>ii) Cyfanswm y nifer o brif danau a fynychwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth;<br>iii) Cyfanswm y nifer o danau a fynychwyd a ddechreuwyd yn fwriadol mewn cartrefi fesul 10,000 o gartrefi;<br>iv) Cyfanswm y nifer o danau a fynychwyd a gychwynnwyd yn fwriadol fesul 10,000 o'r boblogaeth. |
| FRS/RRC/S/002 | Y nifer o:<br>i) Farwolaethau achoswyd gan danau fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>ii) Farwolaethau achoswyd gan danau a gychwynnwyd yn ddamweiniol fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>iii) Farwolaethau achoswyd gan danau a gychwynnwyd yn fwriadol fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>iv) Anafiadau (gan eithrio archwiliadau rhagofal) achoswyd gan danau fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>v) Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofal) achoswyd gan danau a gychwynnwyd yn ddamweiniol fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>vi) Anafiadau (eithrio archwiliadau rhagofal) achoswyd gan danau a gychwynnwyd yn fwriadol fesul 100,000 o'r boblogaeth. |
| FRS/RRC/S/003 | Cyfanswm y nifer o danau mewn eiddo annomestig fesul 1,000 o eiddo annomestig. |
| FRS/RRC/S/004 | i) Y nifer o gartrefi sydd o fewn y categori risg uwch na'r cyfartaledd a sydd chryn dipyn yn uwch na'r categori risg ar gyfartaledd (fel y pennir gan fodel Fire Service Emergency Cover (FSEC)) sydd wedi derbyn, o fewn blwyddyn adrodd, asesiad risg diogelwch tân yn y cartref ac sydd o fewn safon cyrraedd o fewn pum munud y gwasanaeth.<br>ii) Y nifer o gartrefi sydd o fewn y categori risg uwch na'r cyfartaledd a sydd chryn dipyn yn uwch na'r categori risg ar gyfartaledd (fel y pennir gan FSEC) dderbyniwyd, o fewn blwyddyn adrodd, asesiad risg diogelwch tân yn y cartref ac sydd o fewn safon cyrraedd o fewn 10 munud y gwasanaeth.<br>iii) Y nifer o gartrefi sydd o fewn y categori risg uwch na'r cyfartaledd a sydd chryn dipyn yn uwch na'r categori risg ar gyfartaledd (fel y pennir gan FSEC) sydd wedi derbyn, o fewn |

| | |
|---|---|
| | blwyddyn adrodd, asesiad risg diogelwch tân a thu allan i safon cyrraedd o fewn 10 munud y gwasanaeth.<br>iv) Cyfanswm nifer y tanau mewn cartrefi lle’r oedd asesiad risg diogelwch tân yn y cartref ac/neu weithgaredd lleihau risg cysylltiedig wedi digwydd o fewn dwy flynedd cyn y tân. |

**Atodlen 2**

## Ymateb effeithiol

| *Cyfeirnod* | *Dangosydd* |
|---|---|
| FRS/EFR/S/001 | Canran o danau mewn cartrefi, o fewn safon cyrraedd o fewn deg munud y gwasanaeth, adnabuwyd gan bob Awdurdod Tân ac Achub, fynychwyd o fewn deg munud. |
| FRS/EFR/S/002 | Canran o danau mewn cartrefi, adnabuwyd gan y model FSEC, â chyfradd anffodusion o fwy na chwech, fynychwyd o fewn pum munud. |

**Atodiad 2**

Laura Thomas
Cangen Gwasanaeth Tân ac Achub
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

12 Chwefror 2008

Annwyl Laura

**Ymgynghoriad ar Orchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008 arfaethedig**

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 29ain Ionawr 2008 parthed yr uchod, sy'n disodli eich llythyr cynharach o 8fed Ionawr 2008 ynglŷn â'r un pwnc.

Rydym ni'n cefnogi bwriad y Cynulliad i enwi nifer gyfyngedig o ddangosyddion statudol ar hyn o bryd, a nodwn y penderfyniad i ymgorffori'r holl ddangosyddion tân ac achub statudol yn y ddau gategori o Ymateb Effeithiol a Lleihau Risg a Diogelwch Cymunedol.

Rydym ni wedi nodi: y mân newidiadau i eiriad y fersiynau cynharach; y diwygiad i'r enwadur o'r boblogaeth i gartrefi yn FRS/RRC/S/001; a'r diwygiadau wnaed i FRS/RRC/S/004.

Parthed tri rhan cyntaf y FRS/RRC/S/004, mae'r angen am ddiwygiad hwyr yn ymddangos i adlewyrchu'r anhawster wrth ddarganfod ffurf o eiriad sy'n dal cymhlethdod safon y gwasanaeth yn glir ac yn gryno. Mae'r fersiwn ddiweddaraf yn ymddangos i ddal y nod sylfaenol y dylid blaenoriaethu a thargedu gweithgaredd atal yn ôl yr angen wedi asesiad risg. Mae'r nifer o Asesiadau Risg Diogelwch Tân yn y Cartref mewn ardaloedd uwch na'r cyfartaledd a chryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd yn cael ei gymryd i fod yn ddangosydd o gydymffurfiad y gwasanaeth gyda'r hyn gyfeirir ato'n fwy cyffredinol yn y safon fel 'strategaethau lleihau risg'.

Roedd y casgliad yn fersiwn Ionawr 8fed, mai'r unig Asesiadau i'w cyfrif oedd y rhai hynny lle'r oedd gweithgaredd dilynol wedi digwydd, yn amlwg yn anfwriadol. Rwy'n credu fod y geiriau ychwanegol wedi cael eu mewnosod i sicrhau na

fyddai ymweliadau dilynol yn golygu cyfrif beth oedd yn becyn unigol o ofal dros un ymweliad, dwywaith.

Does dim amheuaeth y cyfeirir at y mater yma'n ystod y gwaith i lunio canllaw i gyfrifo'r dangosydd, ochr yn ochr â manylion niferus eraill.

Mewn perthynas â phedwaredd ran y FRS/RRC/S/004, fodd bynnag, tra bod y diwygiad i '**ac/neu** weithgaredd lleihau risg cysylltiedig' yn datrys y broblem botensial ddisgrifir yn eich llythyr, yn anffodus mae'n peryglu cyflwyno, yn anfwriadol, cymhelliant gwrthnysig i Awdurdodau Tân ac Achub beidio â dilyn Asesiad gydag unrhyw weithgaredd lleihau risg arall er mwyn osgoi cynyddu'r nifer o danau adroddwyd yn adran.

Un datrysiad i hyn fyddai i gyflwyno diffiniad amserol i'r gair 'cysylltiedig'. Er mwyn i'r gweithgaredd lleihau risg fod yn rhan amlwg o'r pecyn gofal cyffredinol ddarparir gan yr Asesiad gwreiddiol. Mae'n debyg y bydd hyn yn cael ei wneud yn y gwaith ar ddiffiniadau manwl.

Yn fwy cyffredinol, rydym ni'n disgwyl y bydd yn eithaf her i'r Awdurdodau Tân ac Achub gasglu a chyfathrebu canlyniadau'r dangosyddion Safon Gwasanaeth 'r cyhoedd mewn ffordd a ellir ei ddeall yn rhwydd. Mae FRS/RRC/S/004 yn cyfuno pum ffynhonnell wybodaeth wahanol -

a.) cyfrif o danau mewn cartrefi mewn blwyddyn ariannol,
b.) cyfrif o Asesiadau mewn blwyddyn ariannol,
c.) cofnod o gyfeiriadau lle gwnaed Asesiad o leiaf 2 flynedd yn flaenorol,
d.) mapio ôl troed lle mae'r safonau cyrraedd o fewn 5 munud a 10 munud yn gymwys/ddim yn gymwys,
e.) mapio ardal allbwn risg wedi ei raddio gan FSEC.

Mae'n ymddangos yn deg tybio fod pobl nad ydynt yn deall d ac e yn debygol o gael trafferth rhoi a a b yn ei gyd-destun a'i ddehongli.

Rydym ni'n cefnogi dymuniad y Cynulliad i gyflwyno'r Gorchymyn cyn y flwyddyn ariannol nesaf, wedi edrych ymlaen am beth amser i gael set newydd o ddangosyddion strategol i'r Awdurdodau Tân ac Achub Cymreig. Oherwydd hyn, rydym ni'n gobeithio gellir cyfeirio at ein pryderon heb oedi'r broses ymhellach, ac y bydd gwaith yn symud ymlaen dros yr wythnosau nesaf i egluro'r diffiniadau.

Yr eiddoch yn gywir

Shân Morris
Rheolwr Cynllunio Corfforaethol